YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XLIII. MAWRTH, 1943. RHIF 3.

Ein Rhyddid.

RHYDDID mewn crefydd, rhyddid i grefydda—gwêl y craffus ar unwaith fod ystyron y ddau ymadrodd yn gwahaniaethu. Rhyddid mewn crefydd—dyma'r nodwedd arbennig sy'n gwahaniaethu'r Undodiaid oddiwrth yr enwadau eraill. *Hall mark* Undodiaeth yw hwn. Yr egwyddor o ryddid mewn crefydd sy'n ein cysylltu â'n gilydd fel aelodau o'r mudiad, y rhyddid i addoli Duw yn ôl cymhellion ein cydwybod.

Meddyliwn am Undodwr a rhyw anghydffurfiwr arall yn ymgomio'n gyfeillgar ar faterion crefyddol. Yn wir o wrando ar bregethu'r gwahanol enwadau heddiw y mae'n anodd iawn gweld y ffin sy'n eu cadw ar wahan. Dwed yr Undodwr ei fod yn credu mewn rhyddid, mai dyma bwnc mawr y mudiad y mae'n perthyn iddo, ac fe etyb yr anghydffurfiwr o enwad arall ei fod yntau hefyd yn credu mewn rhyddid, nad oes gan y wladwriaeth hawl i ymyrryd â daliadau crefyddol ei deiliaid. I'r Annibynwr dyna ydyw Eglwys Annibynnol—independent of State control. Dyna ystyr gyntefig y gair—Independent—yn nyddiau Cromwel. Gwn fod yna ystyr ddiweddarach iddo parthed llywodraeth eglwysig. Yn ôl y syniad hwn am ryddid y mae eglwysi'r anghydffurfwyr i gyd yn eglwysi rhyddion. Ond i'r Undodwr, yn enwedig wedi dyddiau Channing a Martineau, golyga eglwys rydd eglwys sy'n hawlio addoli Duw heb wneud athrawiaethau neilltuol yn amod aelodaeth ynddi. Yng ngeiriau Dr. Gow—"it is a church which regards the worship of God as of supreme importance, and the difference in modes of worship and in form of doctrine as of minor importance."

Y mae'r syniad sydd yng ngeiriau cryno a chynhwysfawr Dr. Gow yn galw am ein sylw manwl, a bwriadaf ddod yn ôl ato eto yn nes ymlaen.

Heddiw wrth gyd-gynnull i addoli nid oes arnom ofn y daw gweision y llywodraeth yma i'n rhwystro. Dywedwn fod gennym ryddid i ddal meddiant yn ein Capel, i gydgynnull yno'n ddirwystr,

ac i draethu ein barn ar bethau'n gyhoeddus. Mor wahanol ydoedd dri chan mlynedd yn ôl—y teidiau Piwritanaidd yn gorfod cydgynnull mewn lleoedd anghysbell a dirgel, bob amser ar y *look out*, rhag bod crafangau erlidgar llywodraeth ormesol yn cael gafael ynddynt. Beth sy'n cyfrif am y gwahaniaeth? Rhyddid i addoli.

Ni cheisiaf ddeffinio rhyddid. Codai hynny broblemau cymhleth a thywyll, a dadleuon anodd nad oes eto ateb clir iddynt. Yn wir, os na ellir deffinio rhyddid yn rhwydd, nid ydyw hynny'n achos dros beidio a siarad amdano a'i ddefnyddio. Ni all y gwyddonydd ddweud beth ydyw *electricity*, ond fe'i defnyddia, sieryd amdano, a thrwy hynny fe ddaw i wybod mwy amdano o hyd. Gwnawn ninnau yr un peth â rhyddid. Yn wir, y mae'n rhwym arnom heddiw feddwl yn ddifrifol am ein traddodiad o ryddid. Y mae athrawiaethau politicaidd sy'n chwerthin ar ben ein traddodiad o ryddid wedi terfysgu'r cenhedloedd. Rhai blynyddoedd cyn y Rhyfel ysgrifennodd yr Athro Laski yn ei *Liberty in the Modern State*,—

> " . . . the condition of liberty has visibly deteriorated over most of the civilized world. The advent of Herr Hitler to power in Germany in 1933 is only the most far-reaching example of a wide and profound attack upon freedom and political democracy. Constitutional principle is everywhere on the defensive. In Austria and Greece, in Spain and most of the Balkans, representative government, in any vital sense, no longer exists."

Dyna'r cyflwr a achosodd y Rhyfel. "We have buried the putrid corpse of liberty," meddai Mussolini. Y mae cyngor Macaulay mor bwysig ag erioed,—"The price of liberty is eternal vigilance." Gwyliadwriaeth barhaus ydyw pris rhyddid.

Rhyddid, os ydyw ei ddeffinio'n anodd, yr ym er hynny'n ei ddefnyddio. Siaradwn amdano. Dosrannwn ef yn rhyddid crefyddol, rhyddid politicaidd, ein rhyddid fel dineswyr (civil liberties), ein rhyddid personol, ein rhyddid i hunan-fynegiant, rhyddid i gyd-gynnull a chyfathrachu a'n gilydd. Cyfaddefwn nad yw ein rhyddid yn berffaith o ffordd bell. Gwyddom nad oes i laweroedd o bobl heddiw'r fath beth a rhyddid cymdeithasol. Yn y cylch economaidd gwyddom nad oes gan fwyafrif y boblogaeth gyfle i ddweud gair ar lywodraeth y busnesau hynny y mae eu bywioliaeth yn ymddibynu arnynt. Cofir am amser pryd yr oedd myrddiynau heb fywioliaeth o gwbl, a gobeithiwn na welir hynny eto. Gwyddom yn eithaf da fod pellter ffordd rhwng ein rhyddid a bod yn berffaith. Onid ceisio ei berffeithio yr ydym? A'r pris ydyw gwyliadwriaeth barhaus.

MAINT EIN RHYDDID.

Ymfalchïwn yn ein rhyddid crefyddol. Amdano fe dalwyd pris anferth, a byddai'n werth i ninnau roi ychydig amser i gymryd cipdrem frysiog ar brif fomentau'r ymdrech a enillodd i ni y rhagorfraint hon.

Credaf y bydd cymryd dedfryd llys barn a draddodwyd yn 1908 yn ddigon i ddangos sefyllfa'r Gyfraith ar gwestiwn ein rhyddid crefyddol heddiw.

> "A man is free to speak and to teach what he pleases as to religious matters, though not as to morals ; . . . but if, for the sake of argument, he were making a scurrilous attack on doctrines which the majority of people hold to be true, in a public place where passers-by may have their ears offended, and where young persons may come, he will render himself liable to the law of blasphemous libel."

Dyna'r Gyfraith, ac y mae'r ateb—a ydyw'n *libel* ynte nad ydyw—yn ymddibynnu ar farn deuddeg o reithwyr.

Dywedai ysgrifennydd yn ddiweddar fod rhyddid crefyddol yn y wlad hon yn weddol gyflawn. Gallwn broffesu'r grefydd a fynnom neu beidio. Gallwn addoli'n breifat neu'n gyhoeddus, neu beidio ag addoli o gwbl. Ni wna wahaniaeth i'n iawnderau politicaidd a dinesig, gydag eithrio na all y brenin briodi pabydd na phabydd fod yn Lord Chancellor. Mewn ffordd o siarad, gallwn ddweud a chyhoeddi beth a fynnom am grefydd ond i ni wneud hynny mewn ffordd weddaidd. Dyna fesur ein rhyddid crefyddol heddiw.

Dywedir wrthym mai sylfaen traddodiad rhyddid Prydain Fawr ydyw'r Magna Charta (1215). Brawddeg gyntaf y Magna Charta ydyw—*the English Church shall be free.* Ond y gwir yw, nid yr un ydoedd ystyr "freedom" yn 1215 ag ydyw heddiw. Y pryd hynny safai dros freiniau arbennig rhyw nifer fach o ddynion. Saif heddiw dros hawliau cyffredin pawb. Yn 1215 golygai "liberty" lawer iawn o bethau, ac yn eu plith ddarn o ddaear. Perthynai i'r barwniaid eu "liberties" neilltuol. Yr oedd gan y "boroughs" hefyd eu "liberties," ac ystyr "liberty" yma ydyw *privilege*—braint. Ofni colli'r "liberties" hyn a barodd i'r barwniaid orfodi'r brenin i lawnodi'r Magna Charta. Anghywir ydyw galw y Magna Charta yn *Charter of Liberty. Charter of liberties* ydyw, ac yn wir i hanesydd rhyddid cam yn ôl yn hytrach na cham ymlaen ydyw'r Siartr hon. Yn 1348 daeth y wlad i weld hynny, ac erfyniwyd ar y brenin i beidio a rhoddi ychwaneg o "liberties" i drigolion neilltuol o'r wlad. Yr unig beth a enillodd yr Eglwys dan Magna Charta ydoedd cydnabyddiaeth ffurfiol o'i breiniau.

Pan ddaeth Cristnogaeth yn grefydd swyddogol yr Ymerodraeth Rufeinig, daeth esgob Rhufain, fel Pab, yn ben ar yr Eglwys drwy'r Ymerodraeth yn gyfan. Fe gwympodd yr Ymerodraeth

yn ddarnau, ond fe safodd yr Eglwys yn un fel cynt, ac yn awr fe edrychid ar faterion tymhorol pob gwlad fel busnes llywodraethwr y wlad honno, ond busnes y Pab ydoedd materion ysbrydol y gwledydd i gyd. Felly, cawn mewn gwlad fel Lloegr ddwy Eglwys, un a'i chanolfan yn Efrog a'r llall a'i chanolfan yng Nghaergaint, ond rhannau ydyw'r ddwy o'r Eglwys Fawr Gatholig sy dan lywodraeth Pab Rhufain.

BRWYDR RHWNG BRENIN A PHAB.

Fel y cynhyddai'r ysbryd cenedlaethol yn yr oesoedd canol, daethpwyd i edrych ar lywodraeth y Pab fel *foreign interference*, ac fe gynhyddai'r anghydfod rhwng Brenin a Phab. Meddai Dr. Brooke Herford :

> "The spirit of resistance to Rome took many forms. The first outcome was in the spirit of national freedom, which would not submit to pay tribute to the Pope, or to have the kingdom considered a province of Rome. But men could not long carry out a stout resistance to the Pope's lordship over lands and money, without at last beginning to doubt his lordship over their souls, and his power of forgiving sins."

Cafodd yr anfodlonrwydd arweinydd yn John Wyclif. Gelwir ef yn "Seren Fore y Diwygiad Protestannaidd." Pregethodd yn erbyn llygredigaeth yr Eglwys. Cyfieithodd yr Ysgrythurau i iaith y werin bobl. Pregethodd yn erbyn yr athrawiaeth sy'n honni, pan gysegrir y bara a'r gwin gan yr offeiriad yng Ngwasanaeth y Cymun y troir hwy yn wirioneddol yn gnawd ac yn waed Crist. Dyma'r athrawiaeth a roddai i Babyddiaeth awdurdod anferth a gwyrthiol ar feddyliau dynion. Yr oedd gwadu'r athrawiaeth hon, yn sicr, yn heresi. Felly rhaid yn awr ydoedd penderfynu beth i'w wneud a'r heretic. Ni allai'r Cwrt Eglwysig ond ei esgymunu. Yn Neddfau'r Cwrt Gwladol nid oedd ddim ar gyfer hereticiaid. Felly gorfu pasio deddf yn 1401, ac wedyn ddeddf arall yn 1414, i'w llosgi. Bu'r deddfau hyn yn gweithredu am ganrif a hanner. Yn y lle cyntaf fe'u pasiwyd er mwyn tawelu dilynwyr Wyclif—y Lolardiaid, a oedd erbyn hyn yn pregethu ym mhob cwr o'r deyrnas. Ar waethaf y fflamau a'r erlid yr oedd grymusterau'r Diwygiad yn cerdded rhagddynt. Y mae ysbryd rhyddid crefyddol wedi deffro, ond nid ydyw eto wedi hawlio'r orsedd.

Yn y wlad hon fe ddigwyddodd peth annisgwyliadwy. Yr oedd Harri'r Wythfed yn Babydd selog o ran diwinyddiaeth hyd ei fedd; ond ar fater ei briodas cododd anghydfod rhyngddo â'r Pab. Nid oes angen yn awr cyfeirio at y manylion er mor ddiddorol ydynt. Diwedd y cyfan ydoedd i'r Pab golli pob rhith o awdurdod yn y wlad hon. Cydnabu'r Offeiriaid Harri fel Pen Eglwys Loegr. Dyma'r *Act of Supremacy* (*1534*). Dyma sefydlu'r Eglwys Wladol a phob perchen anadl yn y deyrnas yn aelod ohoni. Dyma hefyd

yn ddifwriad, agoriad y drws i ddysgeidiaeth mudiadau crefyddol newyddion y Cyfandir ddod i mewn. Y mae ysbryd rhyddid yn symud, ond nid ydyw'r ergyd eto wedi ei daro.

BRWYDR DROS RHYDDID BARN.

Awn yn ôl ddeng mlynedd,—1524. Mewn nodiad* dywaid fy athro mewn Hanes Eglwysig wrthyf—"Before the rise of the Anabaptists neither Catholic nor Heretic from 60 A.D. on knew anything about liberty of judgement, conscience and action in Europe. It was first claimed at Zurich in 1524, and put into practice in January 1525 there." Dyma ddigwyddodd yn Zurich. Oddiyno cododd sect yr *Anabaptists.* Dynion yn credu mewn bedyddio eilwaith oeddynt. Sefydlent eu cred ar y Testament Newydd. Daeth llawer ohonynt rai blynyddoedd yn ddiweddarach tan ddylanwad syniadau gwrth-Drindodaidd y Sosiniaid, canlynwyr Faustus Socinus (1539—1604). Dywed Gwili fod i'r "Ail Fedyddwyr le amlwg yn hanes rhyddhad meddwl ac ysbryd dyn, a hynny'n fynych yn wyneb erledigaeth diwygwyr enwog na wyddent ystyr rhyddid barn a chydwybod."

Meddai Bury—"We owe the modern principle of toleration to the Italian group of Reformers, who rejected the doctrine of the Trinity and were the fathers of Unitarianism . . . Socinus . . . contemplated a close union between the State and the prevailing Church, combined with complete toleration for other sects. It is under this system (which has been called *juridictional*) that religious liberty has been realised in European States. But there is another and simpler method, that of *separating* Church from State and placing all religions on an equality. This solution the Anabaptists would have preferred. They detested the State ; and the doctrine of religious liberty was not precious to them."

Ar Hydref 27, 1553 llosgwyd Servetus yn Geneva. Yn wir, y mae'n olygfa erchyll, a chyffrodd ei farw gydwybod y gwerinoedd ar erlid a charcharu a llosgi dynion am eu daliadau crefyddol. O Basel, yn y Swistir, lle y pleidiai ysgolheigion pennaf Ewrop ysbryd rhyddid, clywid Chatillon yn seinio utgorn rhyddid barn uwch llwch Servetus. Y mae crefydd yn felltith os ydyw erlid yn rhan ohoni. Beth bynnag ydyw dylanwad Servetus ar faes diwinyddiaeth, y mae dylanwad ei farw yn annhraethol ar gwestiwn rhyddid barn. Y fflamau a losgodd ei gorff bregus ef a ddatguddiodd i feddwl cyfandir y llwybr i ryddid crefyddol.

Yn 1568, dan John Sigismund, Undodwr a oedd yn Frenin Transylfania, pasiwyd deddf yn rhoi rhyddid i'r Pabyddion, Lutheriaid, Calfiniaid ac Undodiaid. Dyma'r ddeddf wladol gyntaf yn Ewrop sy'n cyhoeddi rhyddid crefyddol yn gyflawn.

---

*Llythyr oddiwrth yr Athro M. B. Owen, M.A., B.D., Caerfyrddin.

DECHRAU ANGHYDFFURFIAETH.

Yn ein gwlad ni tua'r un cyfnod yr oedd Elisabeth ar yr orsedd. Symudwyd oddiar y *Statute Book* y deddfau sy'n awdurdodi llosgi hereticiaid. Er hynny llosgwyd rhai ohonynt wedi hyn. Ceisiodd y frenhines wneud i'r Eglwys Wladol gynnwys y Pabyddion *moderate* yn ogystal a'r Protestanniaid *moderate*. Rhaid oedd i bawb fynd i'r Eglwys. Cwtogwyd llawer ar y pregethu ; yn wir diddymwyd pregethu, trwy ddefnyddio'r *Llyfr Homiliau*, gan obeithio y gwnai hynny i ddynion anghofio eu gwahaniaethau athrawiaethol. *Compromise* ydyw Eglwys Elisabeth, ond ni all dynion yn hir gyfaddaw eu hargyhoeddiadau crefyddol. Ni allai'r Pabydd selog fod yn aelod o'r Eglwys hon, ac nid oedd yr Eglwys yn ddigon glân o ddylanwadau Pabyddiaeth i foddio'r dynion a ddihangodd i'r Cyfandir pan oedd Mari Waedlyd yn llosgi'r Protestanniaid yn ei chyfer. Dymunent hwy weld Gwasanaethau'r Eglwys yn lân—wedi eu *puro* oddiwrth bob dylanwad Pabyddol. Am hynny, gelwid y dynion hyn yn Biwritaniaid. Pasiodd Elisabeth yr *Act of Uniformity*. Dyma'r Act gyntaf. Hyd yn hyn, meddai Brooke Herford, ceisiwyd gorfodi dynion i *feddwl* yr un peth. Heresi ydoedd y trosedd mawr. Yn awr, ceisir gorfodi dynion i gydymffurfio yn eu modd o addoli. A'r trosedd mawr bellach ydyw *anghydffurfio*. Dyma gychwyn anghydffurfiaeth, ac y mae anghydffurfio yn *political offence*, fel y gwelir yn hanes merthyrdod John Penry.

Dywaid Gwili : "Daeth egwyddor rhyddid crefyddol, yng ngwir ystyr y gair, drosodd i Loegr oddiwrth yr Ail Fedyddwyr. Cyhoeddodd cynulleidfa John Smyth gyffes ffydd yn Amsterdam, yn 1607, a dywedir ynddi nad yw'r ynad i ymyrraeth a materion cydwybod, nac i orfodi dynion i dderbyn y ffurf hon neu arall ar grefydd, oherwydd mai Crist yw Brenin yr Eglwys a'r gydwybod. Dyma gyffes yr Eglwys fechan o Fedyddwyr, a'i gweinidog Thomas Helwisse, wedi eu dyfod drosodd i Lundain ; a thraethodyn un o aelodau cynulleidfa Helwisse, sef Leonard Busher, yw'r cais cyntaf y gwyddys amdano i ddadlau dros ryddid llawn i gydwybod."

Fel y mae brwydro ar y Cyfandir heddiw rhwng cyfundrefnau politicaidd yr oedd y brwydro yn y cyfnod hwn rhwng Pabyddiaeth a Phrotestaniaeth. Un o ganlyniadau'r berw hwn ydoedd rhyfel gartrefol yn y wlad hon. Dyma ddyddiau Oliver Cromwel. Rhoddwyd rhyddid crefyddol i bawb ond i Eglwyswyr a Phabyddion, Iddewon ac Undodiaid Dywaid un ysgrifennydd, "Under the Commonwealth the English had a first taste of limited toleration. It rather went to their heads. But . . . it did at least show that uniformity in religion was not as essential as had been supposed." Dyma'r cyfnod yr ysgrifenna Roger Wiliams a John Milton o blaid rhyddid.

ERLID AR ANGHYDFFUKFWYR.

Yn 1660 daeth y Frenhiniaeth yn ôl, a daeth y gorthrwm crefyddol eilwaith. Yn 1662 pasiodd Siarl II yr *Act of Uniformity*. Dyma'r ail act, a thrwyddi ail-sefydlwyd yr Esgobaeth, a gwnaed hynny o bwrpas mewn modd a oedd yn hollol annerbyniol i'r Piwritaniaid. Rhennid crefyddwyr bellach yn *Conformist* a *Non-conformist*. Yn rhengoedd Anghydffurfiaeth y mae'r Presbyteriaid, Independiaid, Bedyddwyr a'r Crynwyr. Yn dilyn yr *Act of Uniformity* pasiwyd mesurau cryfion er ceisio difetha Anghydffurfiaeth. Gomeddai'r *Corporation* a'r *Test Acts* iddynt gymryd swyddi ar gynghorau'r wlad. Dan y *Conventicle Act* yr oedd yn drosedd bod yn absennol o Wasanaeth yr Eglwys. Ar wahan i Wasanaethau'r Eglwys yr oedd pob gwasanaeth crefyddol yn cynnwys mwy na phump o bersonau'n anghyfreithlon. Dan y *Five Mile Act* gwaherddid pob gweinidog a drowyd allan ddod o fewn pum milltir i'w hen gynulleidfa. Yn ystod saith mlynedd ar hugain dioddefodd 60,000 dan yr Actau hyn. Talwyd dros £2,000,000 mewn dirwyon. Bu 8,000 farw yng ngharchar.

Lleddfwyd ychydig ar y gorthrwm trwy'r *Indulgences* o law'r Brenin—trwyddedau i gynnal cyfarfodydd,ond ni ddaeth ymwared hyd yr *Act of Toleration* (1689). Cydnabuwyd hawl y *Protestant Dissenters* (dyna'u henw bellach) i godi addoldai, ond rhaid i bob gweinidog cyn cael trwydded i bregethu lawnodi 35 o'r 39 erthyglau ffydd Eglwys Loegr. Dywaid yr Act hon—"the benefit of the Act shall not extend to persons denying the Doctrine of the Trinity."

(*I'w barhau.*)

Priodasau.

CHWEFROR 6, yn Eglwys Sant Mair, Clydach ar Dawe, VERNON LLEWELYN BOWEN JONES, Trebanos (yn awr Pilot Officer yn yr R.A.F.) a BETTY DAVIES, Clydach ar Dawe, y Parch. T. Harries Williams yn gweinyddu. Yr oedd y Parch. J. D. Jones hefyd yn bresennol.

CHWEFROR 22, yng Nghapel Rhydygwin, JOHN EDWARDS ROGERS LEWIS, Cynghorydd Sirol, Plasdy Abermeurig a MARY DAVIES, Brynog Mansion. Gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams.

CHWEFROR 27, yng Nghapel y Graig, Trebanos, EVAN ELWYN THOMAS Alltwen a DIANA EDWARDS, Trebanos, y Parch. J. D. Jones yn gweinyddu.

Canu yn y Storom.

Gan Mrs. A. Rees, Llanelli.

Y peth mwyaf cynhyrfiol a glywyd ar y Radio ers tro oedd y perfformiad o'r Messiah, neu, yn fwy cywir, rannau o'r perfformiad gan aelodau ein Lluoedd Milwrol mewn Eglwys yn Cairo, tua hanner mis Tachwedd diwethaf. Nid oherwydd safon y canu, ond oherwydd yr amgylchiadau. Nid *picnic* oedd canu, a gynnau'r gelyn yn rhuo yn y pellter.

Creodd yr achlysur gyffro mawr ymhlith y dinasyddion. Tyrrasant i wrando wrth y cannoedd, hyd onid aeth yr eglwys yn rhy lawn, a bu raid cyrchu seddau ychwanegol a'u gosod yn rhesi tuallan, gyferbyn a'r drws agored, fel y gallai'r dorf glywed y canu. Saif yr eglwys dan sylw ar lan yr afon Nile, ac eisteddai'r gwrandawyr ar ei glan yng nghysgod y palmwydd. O dan amgylchiadau ffafriol, byddai'r gwrando yn wledd ddigymar.

Y mae'n rhaid bod yr olygfa yn yr eglwys y noson honno yn fyth-gofiadwy—y cantorion, yr arweinydd a'r swyddogion i gyd mewn gwisgoedd milwrol, nid o ddewis ond o raid.

Gwefreiddiol ac amserol oedd yr unawd "Why do the nations so furiously rage together," gan y baswr. Melys oedd yr unawd "He shall feed His flock like a shepherd" gan y gantores o New Zealand, ac yr oedd yr hen "Haleliwia Chorus" mor adfywiol ag erioed. Yn ddiamau, teimlai'r eglwys yn Durham yn falch o'i horganydd am ei wroldeb yn hyfforddi ac arwain y côr yn wyneb y ffaith fod y Lluoedd yn paratoi ar gyfer yr Ymosodiad Mawr ar y pryd.

Nid yw Rhyfel yn rhoi ffafraeth i ddim na neb, hyd yn oed i dalentau disgleiriaf y cyfnod. Geilw hwy allan i'r alanas i flodeuo neu grino. Y mae'n rhaid cyfaddef y gwelir rhai ffeithiau calonogol yn fflachio allan o'r achlysur dan sylw. Gwelwn nad yw cynddaredd y storom bresennol yn foddion i ddileu diddordeb ein pobl ieuainc mewn caniadaeth gysegredig yn wyneb anfanteision mewn gwlad estronol. Gwelwn hefyd ddewrder a phenderfyniad i wynebu anawsterau. Dywedir mai mewn argyfwng y mae adnabod dyn.

Pan yn clywed pobl a fwynhânt gysur a diogelwch eu cartref yn tuchan a grwgnach oherwydd prinder ymenyn a siwgr, neu yn awyddu am siawns i fanteisio ar y Rhyfel i ennill mwy o arian, hêd y meddwl at ein pobl ieuainc yn nannedd y gelyn yn y diffeithwch yn canu'r Haleliwia Chorus. Dylem fod yn ddiolchgar am drugareddau bychain mewn dyddiau fel y rhain.

Ein dymuniad ydyw ar i'n pobl ieuainc ddychwelyd yn iach a dianaf i gyd, ac ar iddynt hwy a ninnau gael mwynhau heddwch cyflawn weddill ein dyddiau ar y ddaear.

Yr Hoelen.

(Stori i'r Plant).

Mewn man gwledig yr oedd gŵr a gwraig yn byw, a thrinient y tir ogylch eu tyddyn unig. Un bore aeth y ffermwr i'r ffair yn y dre i werthu anifeiliaid. Ni bu'n hir yn y ffair cyn gwerthu'r stoc i gyd, a chafodd bris da amdanynt.

Cychwynodd ar ei ffordd adref dan ganu'n llon, ac yng nghlwm wrth gyfrwy ei geffyl yr oedd cod drom o arian. Trot, trot, ac yntau mor hapus a'r dydd wrth feddwl am syndod ei wraig pan gyrhaeddai glôs eu tyddyn unig.

Yr oedd ganddo ffordd bell i fynd, ac arhosodd mewn pentref bychan i gael bwyd iddo'i hun ac i'w geffyl. Wedi'r ginio, arweiniodd y bachgen a ofalai am yr ystabl y ceffyl at ddrws y gwesty, a dywedodd, "Wyddoch chwi, Syr, fod eich ceffyl wedi colli hoelen o un o'i bedolau ? "

"Twt, twt," meddai'r ffermwr, "beth yw un hoelen ? Y mae brys mawr arnaf i i gyrraedd gartref."

Aeth yn ei flaen, ac yn ddiweddarach yn y prynhawn daeth i bentref bychan arall. Yno yr oedd yn rhaid iddo groesi nant, a safodd er mwyn i'r ceffyl yfed dŵr. Ar bompren yn ymyl yr oedd dyn yn sefyll. Wrth fwrw golwg dros y ceffyl a'i edmygu, gwelodd fod ei bedol yn rhydd, a dywedodd wrth y ffermwr, "Ddyn, byddai'n well i chwi fynd at y gof i hoelio pedol eich ceffyl. Fe all gwympo ar y ffordd a'ch taflu chwithau i'r clawdd."

"Twt, twt," meddai'r ffermwr, "nid oes gennyf lawer o ffordd eto. Y mae'r bedol yn eitha sownd."

Aeth yn ei flaen, yn meddwl am lawenydd ei wraig wrth dderbyn y newyddion da am ei lwyddiant yn y ffair. Ond toc, dyma'r ceffyl yn dechrau cloffi, ac wrth fynd i lawr dros waered go serth fe gwympodd ar ei hyd ar yr heol. Ceisiodd y ffermwr ei godi, ond ni allai'r creadur druan. Yr oedd wedi torri ei goes.

"O'r annwyl," ochneidiai'r ffermwr, "dyma aflwyddiant ! Ceffyl da wedi mynd ! Bydd yn rhaid hela'r arian i gyd er mwyn prynu un arall. Mae gennyf filltiroedd eto i fynd cyn cyrraedd gartref."

Do, fe gyrhaeddodd ei gartref rywbryd wedi hanner nos, a'r god a'r arian yn pwyso'n drwm ar ei ysgwydd, a'i galon yn drymach na hynny.

Pan ddeallodd y wraig beth a ddigwyddodd, dywedodd, "Pe bai arnoch lai o frys, ni byddai hyn wedi digwydd. Araf y mae cerdded ymhell. Pwy feddyliai y gallai peth mor fach wneud cymaint o niwed ? "

—*Addasiad o Anderson.*

Maes Llafur yr Ysgol Sul, 1942—43.

(1942—43).

DYMUNIR tynnu sylw swyddogion yr Ysgolion Sul at gyfnewid yn nyddiad yr arholiad blynyddol. Cynhelir yr arholiad ar ddydd Sadwrn, EBRILL 17. Bydd yn dda gan yr ysgrifennydd hefyd wybod nifer yr ymgeiswyr mor fuan ag sy bosibl.

SAFON III. (O 12 oed i fyny). *Prif Gymeriadau'r Testament Newydd.* Tudalennau 22—29. Hanes Paul.
Hanes Dr. Channing. Gweler YMOFYNNYDD Rhagfyr 1942.
Dysgu Emyn 294. "Pa beth yw'r grefydd mewn gwirionedd."

SAFON II. (O 9—12 oed). *Holwyddoreg ar hanes Iesu Grist* (David Evans). Tudalennau 18—24.
Hanes Dr. Channing.
Dysgu Emyn 28. "Un fendith dyro im' . . . "

SAFON I.—(O dan 9 oed). Hanes Moses. Gweler YMOFYNNYDD Ionor 1943.
Hanes Dr. Channing.
Dysgu Emyn 28. "Un fendith dyro im' . . . "

A. J. MARTIN, *Ysgrifennydd.*

Marwgofion.

IONAWR 30, yn 82 oed, bu farw MARGARET THOMAS, gweddw y diweddar Evan Thomas, Bolahaul, ger Llanbedr. Bu ei phriod farw ychydig gyda blwyddyn yn ôl, ar ôl cyd-fyw yn ddedwydd am drigain mlynedd. Oedd enedigol o ardal Llwynygroes, ger Llangeitho, lle yr ymaelododd gyda'r Eglwys Fethodistaidd yn gymharol ieuanc; a pharhaodd i fynychu Shiloh, Llanbedr, hyd y bu ei hannwyl fab, Tom, farw, pryd y trosglwyddodd ei haelodaeth i Gapelygroes. Hyd yr analluogwyd hi gan flinder henaint, bu'n rhyfeddol o ffyddlon; bu ei phriod yn ddiacon am dros ugain mlynedd. Benyw dawel, heddychol, o rodiad cywir ydoedd; a pherchid hi yn fawr gan bawb a'i hadwaenai; a theimlir chwithtod o'i cholli. Gadawodd mewn galar un ferch, un mab, amryw wyrion, un brawd, dwy chwaer, ynghyd â nifer luosog o berthynasau agos eraill. Cludwyd ei gweddillion i Gladdfa Capelygroes y dydd Mercher dilynol, y cynhebrwng yn anghyhoedd yn y tŷ, cyhoeddus yn y capel. Gweinyddwyd yn y tŷ gan y Parchn. W. Ll. Davies, Shiloh, a Matthew Griffiths, curad

Llanbedr ; yn y capel, gan y gweinidog y Parch. A. J. Martin, B.A. ; yn ei anerchiad dug Mr. Martin dystiolaeth uchel i'w ffyddlondeb a'i chymeriad Cristionogol. Cyfeiliwyd gan Miss Lewis, Caeglas.

Dydd Sadwrn, Chwefror 6, DAVID RICHARDS, Derwlwyn, Swansea Road, Trebanos, yn 71 mlwydd oed. Mwynhaodd iechyd da gydol ei oes, a byr y bu ei gystudd. Hanai o Glydach, a gweithiodd am lawer o flynyddoedd fel fireman yng nglofa Tarenni. Aeth wedi hynny i weithio yng ngwaith yr Hendy. Oddiyno ymadawodd er mwyn treulio seibiant diwedd oes yn ei gartref clyd. Pan ddechreuodd y rhyfel presennol aeth yn ôl yn y Darren, Trebanos. Dyn tawel, o ysbryd ffein, yn fawr ei barch drwy'r cymdogaethau oedd Mr. Richards, dyn o dduwiol anian, yn caru'r capel a'r ysgol gân. Ymaelododd yng Nghapel y Graig, a gwelir ei eisiau yno. Teimlai ddiddordeb yn y Trebanos Band, ac yr oedd cerddoriaeth yn beth annwyl yn ei olwg. Ond yn ei gartref y gwelid ef ar ei orau, yno yr oedd ei wên serchus bob amser yn rhoi harddwch annirnad ar wynepryd a greithiwyd yn y lofa, ac yno y teimlir rhwyg yr ymadael yn fawr iawn gan ei weddw wedi hanner cant ac un o flynyddoedd o ddedwyddwch priodasol. Cydymdeimlir yn fawr â hi a'r ferch a'i theulu, ac â'r cysylltiadau niferus, yn eu galar. Claddwyd y dydd Mercher dilynol ym mynwent Coedgwilym, y cynhebrwng yn lluosog, a'r Parchn. J. D. Jones, D. John, D. H. Morgan, Gwynedd Jones, J. James, a G. Beddoe Rees, yn gwasanaethu.

Chwefror 8 yn 65 mlwydd oed bu farw TIMOTHY JONES o'r Gwastod, Cwmanne, ond hyd yn ddiweddar o Chelsea, Llundain, lle y bu yn y fasnach laeth ym bumtheg mlynedd ar hugain. Gwr ydoedd yn anterth ei rym, ac iechyd yn dawnsio ar ei ruddiau ac ychydig amser yn ôl ef a fuasai yr olaf i ni feddwl am ei farw. Yn yr awr na thybiom y daw angau. Felly yma. Gafaelodd afiechyd cadarn ynddo ac ni ollyngodd mo'i afael. Mab y Fountain yng Nghellan ydoedd, a bu yn gweithio wrth ei grefft fel gof nes ei fyned i Lundain. Yn Llundain bu yn fawr ei barch, yn Freemason ac yn troi ynghylch Cymreig y Brifddinas. Pan ddaeth y *blitz* ar Lundain siglwyd ei gyfansoddiad cadarn ac ni ŵyr neb ond a fu trwyddo yr effaith ar feddwl ac ysbryd dyn. Daeth ein brawd a'i deulu bach i'r hen fro gan benderfynu dros y rhyfel o leiaf drigo yma. Trefnodd angau yn wahanol ac y mae'r cymeriad prydferth, y corff cydnerth, yr wyneb siriol croesawgar wedi mynd gan adael priod a dwy ferch mewn galar o'i golli ac un fodryb oedranus yr oedd yn nawdd a chefn iddi yn unig yn ei hen ddyddiau. Y dydd Sadwrn dilynol hebryngwyd ei weddillion marwol i gladdfa'r teulu yng Nghaeronnen. Y mae'i deulu bach—ei dad a'i fam a'r ddau fab weithian yn naear yr hen fynwent. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. J. D. Jones, B.A., B.D., Pontardawe a W. J. Jones, Clapham Junction, Llundain ; yn y Capel gan y Parchn. W. J. Jones a T. O. Williams, M.A., ac ar lan y bedd gan Ficer y Plwyf, Mr. Lloyd, Curad Tumble a'r Gweinidog. Huned yn naear mynwent Caeronnen yn ôl ei ddymuniad ar hyd y blynyddoedd a thystiai Mr. Jones ei weinidog yn Eglwys y Methodistiaid yn Clapham ei fod wedi cerdded drwy fywyd â Chaeronnen yn ei galon a chrefydd ei dadau yn annwyl iawn ganddo.

Dydd Sul, Chwefror 21, GLYN LLOYD, Hafod y Bryn, Graig, Trebanos, yn 37 mlwydd oed. Yr oedd cylch ei gyfeillion yn un helaeth iawn, ac amlygwyd hynny ar ddydd ei angladd. Bachgen ifanc tawel ydoedd, a'i anian yn llawn o gydymdeimlad a phawb yn strygl bywyd, yn arbennig y rhai hynny yr oedd cyfyngderau bywyd yn gwasgu arnynt. Teimlai dros ddynion, a bu'r teimlad hwn a nodweddai ei ysbryd yn help mawr iddo i ddioddef ei gystudd hir ei hun. Saith mlynedd o gystudd mewn oes mor fer—dim ond ymgeledd tyner gwraig a rhieni a chwaer a'i ewyllys daer ei hun am wellhad a estynnodd ei ddyddiau cyhyd. Gweithiodd yn ifanc yng ngwaith dur Pontardawe, ond y blynyddoedd diwethaf ef oedd steward y Trebanos Working Men's Club. Y mae'r cydymdeimlad yn ddwys iawn â'r weddw a Chathrin fach, y tad a'r fam, y brodyr a'r chwaer, a'r perthynasau. Claddwyd y dydd Iau dilynol ym mynwent Coedgwilym, y cynhebrwng yn un lluosog iawn. Gwasanaethwyd gan y Parchn. J. D. Jones, D. John, a D. H. Morgan.

ER COF TYNER

am A.C. DAVID GOMER RICHARDS, mab Mr. a Mrs. John Richards, Maesygaer, Ciliau Aeron. Collodd ei fywyd, Rhagfyr 4, 1942, yn 20 mlwydd oed.

"His courage, his fighting heart, and his life were at Britain's service. His love was ours."

Rhoist dy fryd ar fri'r Llu Awyr,
  Rhoist dy orau dros dy wlad ;
Daeth dy alwad yn ddisyfyd,
  Llifodd siom hyd Aeron fad :
Ac ni wyddom pam y digwydd
  Loes ac ing yn nhrefen Duw ;
Er pob cyffro rhaid yw cofio
  Mai ein Tad sydd wrth y llyw.

Cofiwn d'hawddgar bersonoliaeth
  A dy firi serchog, iach,
Glendid ienctid mwyn, diragrith,
  Lonnodd fyd am ysbaid fach :
Ac uwch hiraeth am dy gwmni,
  Uwch ein gofid dwys, di-hedd
Am dy golli—eto cofiwn
  Gallwn nodi man dy fedd.

Huna'n dawel yn dy henfro ;
  Tyner gwylir man dy hun :
Pe caet ddewis, gwell bod yma
  Nag mewn pell anial-dir crin :
Ti ragflaenaist yn dy ienctid,
  Ac ni elli fynd yn hen ;
Bydd ein Nef yn fwy cartrefol
  O dan groeso mwyn dy wên.

Nance.

CHWEFROR 23, yn gymharol sydyn, WILLIAM THOMAS, Felin Cletwr, yn 75 oed. Mab y Glaslwyn ger Pontshan ydoedd. Erbyn hyn un ferch yn unig o'r teulu parchus hwnnw sy'n aros. Melinydd a llifwr coed oedd wrth ei alwedigaeth a thrwy hynny daeth i gysylltiad agos â llu mawr o amaethwyr y cylch. Yr oedd William Thomas yn gymeriad ar ei ben ei hun, a'i ffraethineb yn ddihareb ardal. Gwledd oedd cael awr yn ei gwmni pan oedd yn ei hwyliau gorau, a chofiwn ryw hanner dwsin o gymydogion a fedrai ei godi i hwyl yn ddidrafferth. Yr oedd ganddo ddawn arbennig i greu hwyl a mynd mewn ocsiwn. Yr oedd yn ddyn o galon fawr a theimladau tyner. 'Roedd colli cyfeillion yn loes enbyd iddo ac hiraethai'n drwm ar ôl ambell un. Gadawodd mewn galar o'i golli weddw oedrannus, chwaer, mab, wyrion a neiaint, heblaw llawer o gyfeillion. Claddwyd y dydd Gwener dilynol ym mynwent Llwynrhydowen, a gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins ; H. Ponsford, Talgarreg ; D. A. Thomas, M.A., Llandysul a P. Jenkins, Llandysul.

YR HEN FAGWYRYDD.

Y BWTHYN i chwi sydd yn sarn
  Heb ddim dan y nef iddo'n dô
Sydd neuadd gyfoethog i mi
A'i threm i gyfeiriad y lli,—
  Hen gartre nad â byth o'm co'.

Os murddyn heb ffenestr na dôr
  A'i furiau dan greithiau y gwynt
Yw'r cyfan sydd yma i chwi,
Mewn atgof o hyd gwelaf i
  F'anwyliaid oll yno fel cynt.

Daw'r awel a'r heulwen ar dro
  I chwarae'n y fangre yn llon,
Da cofiaf mai felly bum i
Cyn cychwyn i'm hynt dros y lli
  Heb bryder nac ofn dan fy mron.

Nid erys ond atgof im' mwy ;
  Hen fwthyn f'anwyliaid nid yw.
Oes deyrnas i ddyn uwch y rhod ?
Oes gartref i enaid yn bod
  Lle mae sylwedd atgofion yn byw ?

Llannon, Ceredigion. IOAN RHYS.

Nodion yr Eglwysi.

RHYDYGWIN.—Cafodd yr eglwys hon ei hanrhegu ag organ gostfawr a hardd gan un o'i haelodau. Mae yma yn awr organ yn y capel ac un yn y festri.

LLWYNRHYDOWEN.—Cynhaliodd yr adran leol o Gynghrair y Gwragedd ei gwasanaeth blynyddol ar brynhawn Sul, Chwefror 7. Daeth cynulleidfa dda ynghyd, a chafwyd gwasanaeth dymunol iawn. Cymerodd Mrs. T. O. Williams, Llanbedr y gwasanaeth ar ei hyd, a chyflawnodd ei gwaith yn hamddenol ac effeithiol iawn. Credwn mai teimlad pawb oedd mai da oedd bod yno. Diolchwyd iddi gan Miss Jones, Gellifaharen a Miss Jones, Heulwen. Cymrwyd casgliad at drysorfa'r myfyrwyr.

ABERYSTWYTH.—Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol cynulleidfa capel bach Heol Newydd ar Chwefror 7, ar ôl gwasanaeth y bore. Cymrwyd y gadair gan Mr. A. T. Grindley, cadeirydd y gynulleidfa. Wedi darllen a chadarnhau cofnodion y cwrdd blynyddol diwetha cafwyd adroddiad y pwyllgor am y flwyddyn 1942. Dengys hwn fod sefyllfa'r gynulleidfa wedi gwella cryn dipyn yn ystod y flwyddyn ac fod y cynulliadau yn cynyddu yn raddol. Gwneir cyfeiriad arbennig at y ffaith fod mwy o fyfyrwyr y Brifysgol yn mynychu'r gwasanaeth nag a welwyd er ys rhai blynyddoedd bellach. Yna cafwyd adroddiad y trysorydd ac yr oedd hwn eto yn ffafriol iawn am fod ychydig yn rhagor mewn llaw ar ddiwedd 1942 nag oedd flwyddyn cyn hynny. Ail-etholwyd swyddogion y gynulleidfa ac hefyd aelodau'r pwyllgor oddieithr y rhai hynny sydd wedi gadael y dref, ac yn lle'r rhai hyn dewiswyd Miss M. Francis a Mr. D. Evans. Dewiswyd Mr. Ifan Jones (Prengwyn) yn archwiliwr yn lle Mr. M. Jenkins sydd wedi gadael. Talwyd y diolchiadau arferol i'r Gymdeithas Gyffredinol, i'r Gronfa Gynorthwyol, i'r Gymdeithas Undodaidd Gymreig, i'r Prifathro a Mrs. W. S. Jones, Caerfyrddin, ac i Mr. J. B. Willans, Kerry, am gymorth ariannol yn ystod 1942, ac yn olaf diolchodd y gweinidog i swyddogion ac aelodau'r gynulleidfa am eu ffyddlondeb drwy'r flwyddyn. Da gennym allu cofnodi'r ffaith i'n gweinidog gael gwahoddiad cynnes i bregethu yn un o gapeli mwyaf Caernarfon yn ystod gwyliau'r Nadolig ac iddo wneud argraff hynod ffafriol ar y gynulleidfa yno, yn ôl a glywsom gan un a oedd yno. Dengys hyn fod muriau enwadol yn syrthio yn raddol hyd yn oed yng Nghymru. Dymunwn longyfarch yn y modd mwyaf calonnog Marion Davies o Gwrtnewydd ar gael ohoni ei dewis i ganu yn un o ddau yn Neuadd y Dref yma nos Sul, Chwefror 21. O gofio mai dim ond cantorion enwog a ddewisir i ganu yma gwelwn ar unwaith fod hyn yn anrhydedd mawr iddi.

LLUNDAIN.—Cyferfydd yr Eglwys Undodaidd Gymraeg yn Eglwys Unity, Upper Street, Islington, N. bob Sul cyntaf o'r mis am 4.15 o'r gloch. Pleser oedd cael cwmni'r Parchedig Tyssul Davis, B.A. yn ein gwasanaeth ym mis Chwefror. Dangosodd inni'r modd y gall digwyddiadau gwaethaf

y dyddiau hyn fod er ein daioni mewn amryw ffyrdd. Y mae Mr. Davis wedi addo dyfod atom eto ym mis Mai, ac edrychwn ymlaen yn fawr am y fraint o gael ei glywed unwaith eto. Yn ein Cwrdd Eglwys, rhoes ein Cadeirydd grynodeb byr o hanes ein mudiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf; a dangosodd y Trysorydd fod ein sefyllfa ariannol yn foddhaol iawn. Penderfynwyd ein bod yn dechrau cronfa newydd gyda'r amcan o gasglu arian un ai i godi neu brynu adeilad newydd ar ddiwedd y rhyfel. Gan na wyddom beth fydd ein hamgylchiadau pan ddaw'r amser hapus hwnnw, credai'r mwyafrif nad doeth fyddai i ni ymuno yn hyn o beth a *Re-building Fund* ein cyfeillion Seisnig yn Unity Church; ond ar y llaw arall fe gytunodd pawb y dylem wneuthur cyfroddion o dro i dro tuag at eu casgliadau er ail-adeiladu eu capel, gan ein bod yn ddyledus iawn iddynt am eu caredigrwydd yn rhoddi llety parhaus inni. Penderfynwyd hefyd ein bod yn gofyn i'r General Assembly am gael ohonom ein cydnabod fel un o'i heglwysi.

TREBANOS.—Ar Ionor 26 cafodd deiliaid yr ysgol Sul sosial i ddathlu dechrau'r flwyddyn. Yr oedd yn sosial agored i bawb o'r gynulleidfa, ac nid ofer y bu'r gwahoddiad chwaith. Daeth mwy ynghyd nag a welwyd ers llawer blwyddyn, a mwynhawyd nawnddydd difyr. Llywydd yr ŵyl oedd yr arolygydd, Mr. Ben Thomas. Yn wir, hwn oedd yr ail sosial i ddathlu'r tymor, canys cafwyd un ar y dydd wedi'r Nadolig trwy garedigrwydd rhai o'r chwiorydd ifainc, a rhoddwyd i blant yr ysgol Sul bobo anrheg. Y mae'n argoeli y collwn o'n cyfeillach grefyddol—am beth amser, beth bynnag—y brawd ffyddlon Mr. Jenkin Morgan, C.M. Edrychasom ymlaen yn eiddgar at yr amser pryd y byddai'n ymddeol o'i swydd fel ysgolfeistr, a gobeithiasom y byddai ei seibiant yn dylanwadu'n ysgogol ar weithgarwch ein cynulleidfa, yn arbennig ar ein caniadaeth. Ond daeth galwad gwlad i'w symud ar unwaith oddiwrthym, ac nid oedd seibiant iddo yntau. Cymer ein dymuniadau gorau gydag ef i Leicester. Gwasanaethodd bwyllgor addysg Sir Forgannwg am 45 o flynyddoedd. Treuliodd yn agos i ddeunaw ohonynt yn ysgolfeistr yng Ngharnswllt. Yr oedd yn un o'r myfyrwyr cyntaf yng Ngholeg Goldsmith, Llundain. Gydag ef yno yr oedd Mr. W. D. Clee, F.R.C.O., arweinydd enwog côr Ystalyfera; Mr. W. Evans, ysgolfeistr Panteg, a Mr. Gomer Davies, o Drebanos ac yn awr yn Llundain. Wedi bod yn athro yn Harrow am dair blynedd daeth Mr. Morgan i Wauncaegurwen, lle y bu'n athro am 15 mlynedd. Yn Harrow bu'n gapten ar y tim rygbi, tim o'r ranc flaenaf, a chafodd gyfle i chware yn Twickenham. Yn ystod y rhyfel diwethaf yr oedd yn y Llynges. Mewn cerddoriaeth y mae serch Mr. Morgan, ac fel arweinydd band Brynaman daeth ag anrhydedd i Gymru o gystadleuaeth y Plas Grisial yn 1924. Yr oedd yn un o'r wyth brodyr a arferai chware ym mand Trebanos, bechgyn yr hynafgwr a'r Undodwr cadarn, y diweddar Henry Morgan. Y mae diddordeb Mr. Morgan yn gymaint hefyd mewn canu â'r llais. Amlygodd ei hun gyda chorau Brynaman a Rhydaman, ac ynglŷn â materion cerddorol yng Nghapel y Graig. Dymunir yn dda iddo yn ei gylch newydd, a phrysured yr amser pryd y cawn ei weld eto yn rhodio ar "yr hen lwybrau."

SUL YR URDD.—Ar brynhawn Sul Chwefror 28 cynhaliwyd Sul Urdd y Benywod y tro cyntaf ym Mrondeifi. Clywsom lawer o sôn am y Sul ond nid oem wedi cael Sul i ni ein hunain tan eleni. Daeth y gwragedd yn gryno at ei gilydd a chwarae teg i'r gwrywod ni buont hwythau ar ôl. Awd drwy'r rhannau arweiniol gan y gweinidog a'r pregethwr apwyntiedig oedd Mrs. Jenkins, Y.H., Y Bryn, Llanybyther a chafwyd ganddi anerchiad pen-igamp ar *Gymeriad*. Pwysleisiai o'i phrofiad ei hun ddylanwad cymeriad ymhob adran o fywyd, a theimlem fod ei neges yn amserol. Diolchwyd yn gynnes iawn iddi gan y llywydd Mrs. Daisy Williams a Miss Nellie Jones yr ysgrifenyddes, a thros y gynulleidfa fel cyfangorff am ei pharodrwydd i ddod a'i neges gan y gweinidog.

CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU.

Llywydd—Yr Henadur M. Ll. Gwarnant Williams, Y.H., Woodlands.

Cynhelir

Cyfarfodydd Chwarterol

Y GYMDEITHAS UCHOD, YNG

NGHRIBYN

Prynhawn Mercher, Mawrth, 31, 1943.

Pwyllgor am 1.30 :—

Busnes—

(1) Darllen cofnodion.
(2) Enwi swyddogion.
(3) Lle cynnal y cyrddau blynyddol.
(4) Unrhyw fater arall.

Oedfa am 2.30. Pregethir gan y Parch. Lewis Williams.
Oedfa am 5. Pregethir gan y Parchn. J. D. Jones, B.A., B.D., Gellionnen a J. Marles Thomas, M.A., Cefn Coed.

E. O. Jenkins, *Ysgrifennydd.*

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion yng Ngwasg Gomer, Llandysul.